


SUT Y GALLA I DDOD YN AELOD O SENEDD IEUENCTID CYMRU?





CYNNWYS

Cyflwyniad

**Beth mae'n ei olygu i fod yn Aelod o
Senedd leuencid Cymru?**

Pa gefnogaeth y byddaf yn ei chael?

Faint o gyfarfodydd y byddaf yn mynd iddyn nhw?

Sut rydw i'n cynnig fy hun fel ymgeisydd?

Dy ymgyrch etholiadol

Diogelu Data

“

Fe wnes i sefyll i fod yn aelod o Senedd Ieuenctid Cymru am fy mod wedi ymrwymo i rymuso pobl ifanc a chynrychioli eu barn ar y llwyfan cenedlaethol ar y materion sy'n bwysig iddyn nhw.

Jonathon Dawes
Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru
2018-2021



CYFLWYNAD

WYT TI'N TEIMLO'N GRYF DROS WNEUD YN SIŴR BOD POBL IFANC YNG NGHYMURU YN CAEL DWEUD EU BARN?

Beth am gynnig dy hun yn ymgeisydd yn yr etholiad? Os wyt ti'n byw yng Nghymru, neu'n cael dy addysg yng Nghymru, gelli di gynnig dy hun i ddod yn Aelod o Senedd Ieuencid Cymru ar gyfer un o'r seddi etholaethol.

Os wyt ti'n cael dy addysg mewn etholaeth wahanol i'r un lle mae dy gartref, galli ddewis pa etholaeth yr hoffet ti sefyll ynddi. Mae'n bosibl gwirio dy etholaeth drwy fynd i www.senedd.cymru/dod-o-hyd-i-aelod-o-r-senedd/. Bydd raid i ti fod yn 11 oed o leiaf, ac yn ddim hŷn nag 17 ar ddiwrnod olaf yr etholiad ar 22 Tachwedd 2021.

Mae'r ceisiadau'n agor ar 5 Gorffennaf 2021 ac yn cau ar 20 Medi 2021.

Os wyt ti'n rhan o sefydliad neu grŵp a ddaw'n sefydliad partner swyddogol i Senedd Ieuencid Cymru, mae hyn yn golygu y gelli gael dy enwebu ganddyn nhw hefyd! Mae hyn yn golygu y gallai fod gennynt ddwy siawns o gael dy ethol. Gelli gael gwybod mwy am hyn ar ein gwefan.

**BETH MAE'N
EI OLYGU I
FOD YN AELOD
O SENEDD
IEUENCTID
CYMRU?**

**FEL AELOD O SENEDD IEUENCTID CYMRU,
BYDDI DI'N RHAN O GRŴP O 60 O BOBL
IFANC RHWNG 11 AC I FYN Y AT 18 OED O
BOB RHAN O GYMRU.**

- Byddi di'n llais i bobl ifanc Cymru ar lefel genedlaethol.
- Byddi di'n helpu pobl ifanc Cymru i ganfod y materion sy'n bwysig iddyn nhw, codi ymwybyddiaeth ohonyn nhw a'u trafod.
- Byddi di'n gwrandio ar bobl ifanc yng Nghymru, yn cynrychioli eu barn ac yn gweithredu ar y materion sy'n bwysig iddyn nhw.
- Byddi di'n helpu i bendrefynu ar y materion fydd yn flaenoriaeth i Senedd Ieuenctid Cymru.
- Byddi di'n codi ymwybyddiaeth ac yn rhannu gwybodaeth am beth mae Senedd Ieuenctid Cymru yn ei wneud am y materion maen nhw wedi'u codi.
- Byddi di'n helpu plant a phobl ifanc i ddeall sut mae'r Senedd a Senedd Ieuenctid Cymru yn gweithio, a'r effaith maen nhw'n ei chael ar fywydau pobl yng Nghymru.
- Byddi di'n gweithio gydag Aelodau eraill o Senedd Ieuenctid Cymru, yn eu helpu ac yn eu cefnogi.
- Byddi di'n cwrdd â phobl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ac yn siarad am dy waith fel rhan o Senedd Ieuenctid Cymru.
- Byddi di'n llunio dyfodol Senedd Ieuenctid Cymru.
- Byddi di'n helpu i gael mwy o gynrychiolaeth gan bobl ifanc yng Nghymru a datblygu hynny mewn ffordd newydd a chadarnhaol.
- Byddi di'n cael cyfleoedd unigryw i gymryd rhan mewn hyfforddiant, digwyddiadau amrywiol ac ymgysylltu â'r cyfryngau yn ystod dy amser fel Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru.

PA GEFNOGAETH Y BYDDAF YN EI CHAEL?

***BYDD Y SENEDD YN RHOI CYMORTH I TI
FEL BOD DY YRFA FEL AELOD O SENEDD
IEUENCTID CYMRU YN CAEL DECHRAU
GWYCH!***

Bydd staff y Senedd ar gael er mwyn dy helpu a'th gefnogi pan fyddi di'n Aelod o Senedd leuenctid Cymru. Byddan nhw'n rhoi cymorth ac arweiniad, ac yn bwynt cyswllt i ti er mwyn holi am gymorth neu gyngor y bydd eu hangen arnat am Senedd leuenctid Cymru. Byddan nhw hefyd yn rhoi gwybod i ti'n rheolaidd am y newyddion diweddaraf, a gwybodaeth am gyfarfodydd a digwyddiadau sydd ar y gweill.

Bydd y Senedd yn talu unrhyw gostau a fydd yn gysylltiedig â dy waith gyda Senedd leuenctid Cymru. Gallai'r costau hyn gynnwys:

- teithio wedi ei awdurdodi
- llety
- bwyd
- mynd i weithgareddau a gaiff eu trefnu gan y Senedd.

Byddi di'n cael hyfforddiant ar bopeth y bydd angen i ti ei wybod am y Senedd a Senedd leuenctid Cymru. Byddi di hefyd yn cael cefnogaeth gydag unrhyw hyfforddiant ac arweiniad ar unrhyw waith rwyt ti'n rhan ohono gyda Senedd leuenctid Cymru, ac unrhyw beth arall y byddi angen help arno ar y daith.

Byddi di hefyd yn cael arweiniad clir a hyfforddiant ar yr holl bolisiau y bydd angen i Aelodau Senedd leuenctid Cymru eu dilyn.

FAINT O GYFARFODYDD Y BYDDAF YN MYND IDDYN NHW?

**YN YSTOD Y TYMOR O DDWY FLYNEDD,
BYDD 3 CHYFARFOD O HOLL AELODAU
SENEDD IEUENCTID CYMRU.**

Yn y cyfarfodydd hyn, bydd y 60 o Aelodau o Senedd Ieuencid Cymru yn dod at ei gilydd i drafod y materion sy'n bwysig i bobl ifanc Cymru, ac yn pleidleisio arnyn nhw. Pan fydd yn bosibl, bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal yn y Senedd.

Bydd cyfarfodydd a digwyddiadau rhanbarthol yn cael eu trefnu hefyd. Bydd rhai o'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau hyn yn rhai wyneb yn wyneb, a rhai eraill yn gyfarfodydd rhithwir. Bydd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i Aelodau o Senedd Ieuencid Cymru drafod y materion allweddol a gaiff eu dewis ar gyfer eu tymor o ddwy flynedd yn dy ardal leol di, a gweithio arnyn nhw.

“

Lle mae'r Aelodau go-iawn o'r Senedd yn eistedd, roedden ni'n cael eistedd yn eu seddi, lle maen nhw fel arfer yn rhoi eu hareithiau, roedden ni'n cael rhoi ein hareithiau, a lle mae eu lleisiau nhw i'w clywed, roedd ein lleisiau ni i'w clywed.

Jonathan Powell
Aelod o Senedd Ieuencid Cymru
2018-2021



SUT RYDW I'N CYNNIG FY HUN FEL YMGEISYDD?

MAE'R CEISIADAU'N AGOR AR 5 GORFFENAF 2021 AC YN CAU AR 20 MEDI 2021.

Y cam cyntaf yw darganfod beth mae'n ei olygu i fod yn Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru. Gwna yn siŵr dy fod yn darllen Beth yw Senedd Ieuenctid Cymru? a'r canllaw Sut gallaf i ddod yn Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru? yn llawn cyn cwblhau dy enwebiad.

Bydd angen i ti drafod cyflwyno dy enw fel ymgeisydd gyda rhiant neu ofalwr. Gallent ddarganfod mwy am y rôl drwy ddarllen ein Canllaw Senedd Ieuenctid Cymru ar gyfer Ysgolion, Colegau, Gweithwyr Ieuenctid, Rhieni a Gofalwyr. Bydd angen i riant neu warcheidwad gadarnhau eu bod yn ymwybodol o'r cais. Yna, llenwa ffurflen gais. Gelli gael hon o www.seneddieuenctid.cymru. Bydd yn cymryd tua 15 munud i lenwi'r ffurflen.

I wneud cais, bydd angen i ti roi'r wybodaeth ganlynol:

- Dy enw
- Dy gyfeiriad llawn a chod post
- Dy gyfeiriad e-bost
- Dy ddyddiad geni

Bydd angen i ti lenwi ffurflen gydraddoldeb hefyd. .

Fel rhan o'r cais bydd angen i ti roi llun ac ychydig o wybodaeth amdanat dy hun. Os bydd dy gais yn llwyddiannus, bydd y llun a'r wybodaeth amdanat yn cael eu defnyddio yn ystod yr etholiad ac yn cael eu rhoi ar wefan Senedd Ieuenctid Cymru i bobl ifanc gael gwybod amdanat a'u helpu i benderfynu dros bwy i bleidleisio.

Dylai'r wybodaeth amdanat fod yn 200 o eiriau neu lai. Dylai esbonio pam y byddet ti'n Aelod da o Senedd Ieuenctid Cymru.

Dylet hefyd gynnwys y 3 pheth sydd fwyaf pwysig i ti. Mae angen iddyn nhw fod yn bethau y mae gan y Senedd gyfrifoldeb drostyn nhw, fel iechyd, y Gymraeg, darpariaethau ieuenctid, yr amgylchedd ac ati. Gelli gael rhagor o wybodaeth am bwerau'r Senedd ar wefan y Senedd www.senedd.cymru.

Gelli gael ragor o wybodaeth am lenwi'r ffurflen gais ar ein gwefan www.seneddieuenctid.cymru

DY YMGYRCH ETHOLIADOL

**UNWAITH Y BYDDI WEDI ENWEBU DY HUN
FEL YMGEISYDD, AC WEDI CAEL E-BOST
YN CADARNHAU DY FOD WEDI LLWYDDO
I GAEL DY ENWEBU, Y PETH NESAF FYDD
YN RHAI I TI EI WNEUD YW DARBWYLLO
POBL IFANC ERAILL YN DY ETHOLAETH I
BLEIDLEISO DROSOT TI.**

Bydd adnoddau ar gael i ti eu lawrlwytho o www.seneddieuentid.cymru. Bydd croeso i ti eu defnyddio er mwyn helpu i hyrwyddo dy ymgais.

Os wyt ti yn yr ysgol, mewn coleg neu'n aelod o grŵp ieuentid, cofia wneud yn siŵr eu bod yn gwybod dy fod yn sefyll yn yr etholiad fel y gallan nhw helpu. Mae gwybodaeth ac adnoddau iddyn nhw ar y wefan hefyd.



DIOGELU DATA

**MAE GENNYM BARTNERIAETH GYDA
CHWMNI O'R ENW MI-VOICE. A FYDD
YN GOFALU AM EIN SYSTEM AR-LEIN I
GOFRESTRU ETHOLWYR A PHLEIDLEISIO.**

Bydd yr holl wybodaeth rwyt yn ei rhoi i ni yn cael ei chadw'n ddiogel ac ni fydd yn cael ei rhannu gyda neb arall y tu allan i Mi-Voice, y Senedd na Senedd leuenctid Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd y Senedd yn defnyddio dy ddata, dylet ti ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd llawn sydd i'w gael ar ein gwefan www.seneddieuenctid.cymru/polisi-preifatrwydd/hysbysiad-preifatrwydd-llawn





GWEFAN: **WWW.SENEDDIEUENCTID.CYMRU**

INSTAGRAM: **SENEDDIEUENCTIDCYMRU**

FACEBOOK: **SENEDDIEUENCTIDCYMRU**

TWITTER: **SENEDDIEUENCTID**

